# Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2013-2018

1. **Craffu Da? Cwestiwn Da** – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mai 2014

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfannu at y broses craffu.

2. Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol.

3. Datblygu prosesau blaen-raglennu craffu ymhellach er mwyn:
   - Darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau
   - Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau
   - Sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol.

4. Cysoni rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r Cyngor.

5. Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau.

6. Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad uchod cychwynnwyd ar broses gynhwysfawr o hunanwerthuso ein trefniadau craffu, ac o ddysgu gan eraill. Ffrwyth y gwaith hwn oedd cynnig sawl model o strwythurau craffu newydd i'r Cyngor eu hystyried. Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017 mabwysiadwyd drefniadau craffu diwygiedig a ddaeth i rym gyda'r Cyngor newydd fis Mai.

Mae 5 cyfarfod o'r Fforwm Craffu wedi eu cynnal ers mabwysiadu'r drefn newydd gyda'r Fforwm Craffu yn ymarfer eu prif rôl o sicrhau craffu a chynnal ymchwiliadau i'r materion cywir ar draws y Cyngor. Rhan o raglen waith flynyddol y Fforwm Craffu fydd cynnal hunan-adolygiad parhaus o'r trefniadau a'r broses o flaenoriaethu materion i'w craffu. Ers Mai 2017 rydym yn dilyn trefn newydd ble mae 2 aelod o'r

pwyllgorau craffu yn eistedd i mewn ar gyfarfodydd herio perfformiad mewnol ble mae'r Aelodau Cabinet yn herio perfformiad y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn wedi cryfhau'r berthynas rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ac wedi arwain at adnabod materion i'w cynnwys ar y 'log gwyntyllu craffu' (allai yn eu tro fod yn faterion sy'n cael eu craffu yn swyddogol). Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd o Aelodau'r Fforwm Craffu ac Aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o rôl craffu yng Ngwynedd. Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o gyrsiau hyfforddiant fis Chwefror 2017 ac eto ym mis Medi i aelodau'r holl bwyllgorau craffu (gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) ar sgiliau cadeirio a sgiliau cwestiynu ar gyfer craffu effeithiol.

Rydym yn parhau i asesu os yw'r trefniadau newydd yn llwyddo i greu sefyllfa o graffu penderfyniadau yn llwyddiannus. Bu i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal gwaith adolygu pellach ym maes craffu yn Tachwedd/ Rhagfyr 2017 ac rydym yn parhau i ddisgwyl yr adroddiad ganddynt. Bydd casgliadau'r adroddiad yn bwydo i'r asesu parhaus o'r trefniadau newydd.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella yn cael ei nodi "ar waith".

2. **Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2013/14** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2014

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, dylai'r Cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol.

   Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012/13 i 78.4% yn 2013/14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%.

2. Mae'r Cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt o 203 yn 2012/13 i 185 yn 2013/14. Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012/13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru (95.9%).

3. Sicrhau ansawdd - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant :

   Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru. Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15. Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol.

4. Sicrhau ansawdd - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:

   Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru. Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15. Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol.

5. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol o ran ei drefniadau rhiantu corfforaethol, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach nawr. Bydd y panel rhiantu corfforaethol yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 er mwyn darparu amlinelliad i'r camau gweithredu y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal. Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchen mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r cyngor a chan asiantaethau partner; gan sicrhau gofal iechyd priodol, mwy o gymorth addysgol a chyflogaeth dros dro yn y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae’r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn parhau i roi sylw dyledus i’r materion yng nghynnig gwella 1 uchod. Mae gwelliant wedi bod yn y nifer o asesiadau iechyd sydd yn cael eu cynnal yn amserol ar gyfer plant mewn gofal gyda 65% yn cael eu cynnal ar amser. Mae lle i welliant pellach ac mae’r mater yn derbyn sylw cyson mewn trafodaethau rhwng yr Awdurdod Lleol a’r Bwrdd Iechyd. Mae’r Panel Rhiant Corfforaethol yn parhau i fonitro’r sefyllfa yn agos ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (17/18), wedi sefydlu grwpiau tasg sydd yn edrych yn benodol ar ymarfer aml-asiantaethol yn y maes iechyd a chefnogaeth ôl ofal a llety a chefnogaeth i’r rhai sydd yn gadel gofal. Mae’r grwpiau hyn yn cael eu harwain gan aelodau’r Panel ac yn adrodd i’r Panel ar gynnydd ac ar unrhyw faterion sydd angen sylw pellach. Yn

ystod archwiliad llawn o'r gwasanaeth plant gan AGC ym Mai 2018, nodwyd fod ymagwedd y Panel yn gadarn ac yn ddatblygiadol ac yn sicrhau fod sylw teilwng yn cael ei roi i anghenion plant a phobl ifanc mewn gofal.

Gan fod amgylchiadau diwedd 2017/18 yn gryn wahanol i sefyllfa 2013/14, nid ydym yn siŵr a yw'r disgwyliadau sy'n cael eu disgrifio yng nghynnig gwella rhif 2 yn parhau yn berthnasol. Mae cynnydd yn y niferoedd o blant mewn gofal gan Gyngor Gwynedd yn cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol. Ar ddiwedd Mai 2018 roedd 222 o blant mewn gofal. Mae hyn yn arwain at niferoedd uwch o adolygiadau i'w cynnal. Cyflwynwyd gais am Adnoddau ychwanegol i gyflogi Swyddog Adolygu Annibynnol i ymateb i'r cynnydd, ond ni fu hyn yn llwyddiannus. Er hyn mae perfformiad amseroldeb adolygiadau statudol plant mewn gofal yn dda – 89% (diwedd blwyddyn). Yr ydym yn parhau i fonitro y rhesymau dros fethu'r amserlen mewn rhai achosion ac mae'r rhain yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i drefniadau herio perfformiad y gwasanaeth.

Mewn ymateb i gynnig gwella 3 uchod, mae Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi ei sefydlu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae rhaglen waith yr Uned yn gosod sylfaen i gasglu gwybodaeth a data fydd yn gosod gwaelodlin ar gyfer sicrhau ansawdd a bod yn rhagweithiol o ran adnabod problemau posib yn fuan er hwyluso gwaith ataliol. Rydym yn adolygu a monitro y gwasanaeth yn barhaus.

Mae'r Adran yn parhau i gryfhau ei gwaith yn y maes a ddisgrifir yng nghynnig gwella 4 uchod. Mae gan y gwasanaeth raglen awdit gynhwysfawr yn ei lle gyda chytundeb ar y meysydd fydd yn derbyn sylw dros y flwyddyn i ddod. Yn dilyn archwiliad llawn o'r gwasanaeth gan AGC ym Mai 2018, adroddwyd fod y rhaglen yn gynhwysfawr, ond y dylid cynnwys partneriaid yn fwy yn y broses na'r hyn sydd wedi digwydd yn hanesyddol, ac mae'r datblygiad hwnnw eisoes wedi ei roi yn ei le.

Mewn ymateb i gynnig gwella 5 uchod, gallwn gadarnhau bod Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn ei lle ac mae'r Cyngor, drwy drefniadau y Panel Rhiant Corfforaethol, yn gweithredu drwy 5 grwp tasg sydd yn edrych ar 5 prif faes er mwyn gwella profiadau plant a phobl ifanc mewn gofal.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1, 3, 4 a 5 yn cael eu nodi "wedi'i gwblhau", a chynigion gwella 2 "ar waith".

3. **Cyflawni â Llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion** – Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2014

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –</u>

1. Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:
   - cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd,
   - nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru,
   - nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion.

2. Ymgysylltu'n well a thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:
   - ymgynghori a thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;
   - amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion, a
   - nodi cynlluniau i gynyddu taliadau newid safonau gwasanaeth.

3. Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:
   - Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau
   - Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain
   - Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion
   - Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol
   - Cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd
   - gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt
   - cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm
   - defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf
   - lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.

4. Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:
   - nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;
   - dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail benderfyniadau ar wasanaethau iechyd cynghorau yn y dyfodol;
   - cytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Er mwyn ymateb i gynnig gwella 1 uchod nodai'r adran eu bod yn anelu i gyrraedd y safonau arfer sylfaenol, ond nad yw hynny'n hawdd oherwydd cyfyngderau cyllidol.

Er mwyn ymateb i gynnig gwella 2 uchod, mae'r Adran eisoes wedi cynnal adolygiad o strwythur y Gwasanaeth er mwyn ymateb i effaith ymarferol colli dwy swydd rheng flaen fel rhan o'r toriadau. Mae'r adolygiad o ffioedd a gynhaliwyd yn 2016/17 bellach yn weithredol ac rydym bellach yn codi ffioedd am wasanaeth drwy adennill costau ar gyfer cynnig cyngor. Fe fydd adolygiad pellach o ffioedd trwyddedu tacsis yn digwydd yn 2018/19. Mae'r Adran yn parhau i edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o weithio a defnyddio adnoddau staff yn hyblyg ar draws meysydd Gwarchod y Cyhoedd

Mewn perthynas â chynnig 3, mae holl ffioedd perthnasol sydd ynghlwm â'r gwasanaethau a gynigir yn cael eu hadolygu fel bod y gwasanaethau yn symud tuag at adennill costau. Mae opsiynau posib o integreiddio neu gydweithio yn agosach gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor wedi eu hystyried er mwyn darganfod os yw yn bosib cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau ymhellach. I'r perwyl hwnnw mae lleihad wedi bod yn y gweithgareddau hynny nad ydynt yn statudol eisoes. Mae'r polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu fel bod yr hyn a ddisgwylir fel gwasanaeth yn eglur i'r cyhoedd. Mae'r Adran hefyd yn symud tuag at ddarparu mwy o wybodaeth ar lein gan gynyddu'r hyn sy'n bosib drwy hunan wasanaeth.

Mae'r Uned Gwarchod y Cyhoedd eisoes yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio gyda unedau gwasanaeth eraill o fewn yr Adran Amgylchedd ac adrannau eraill o'r Cyngor. Mae cyfleon i gynyddu incwm lle mae yn statudol bosib yn cael eu ystyried. Mae adolygiad pellach ar gostau prosesu trwyddedau hefyd wedi ei gynnal; gyda ffioedd perthnasol yn cael eu cynyddu i adennill costau i'r gwasanaeth

Mae mesurau perfformiad lleol yr Adran Amgylchedd cael eu hadolygu er mwyn bod yn sicr o'n gallu i fesur galw am y gwasanaethau yn effeithiol, a bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth safonol ac amserol. Bydd y mesuryddion yn medru cael eu defnyddio i gynllunio os fydd angen adolygu sut mae adnoddau'r unedau gwasanaeth yn cael eu rhannu.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 1,2,3 a 4 yn cael eu nodi "ar waith".

4. **Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicrheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion manwl ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag ymadael yn gynnar, gan gynnwys y costau sydd ynghlwm. Mae hyn yn cynnwys monitro'r arbedion sy'n deillio o ymadawiadau cynnar a'r ail-strwythuro sy'n dilyn o hynny. Bydd hyn yn parhau pan fo'r Cyngor yn gweithredu ar yr angen i wireddu arbedion pellach dros y dair blynedd nesaf.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 1 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau".

5. **Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2014/15** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion.
   Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

2. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

3. Cymorth i Ofalwyr –

   Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132.

4. Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant –

   Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae’n is na’r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

5. Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant –

   Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae’n is na’r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

6. Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal –

   Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y cyngor o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%).

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Er mwyn ymateb i cynnig 1 uchod, mae Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi ei sefydlu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn bod yn gyfrifol am y gwaith o amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae gwaith yr Uned yn cael ei hadolygu a'i monitro'n barhaus.

Er mwyn ymateb i cynnig 2 uchod, mae'r gwaith o adolygu pecynnau eisoes wedi dechrau ac mae swyddog categori yn mynychu'r adolygiadau er mwyn trafod yr anghenion gyda'r darparwr. Erbyn hyn, mae unrhyw gais am becyn newydd yn cael ei graffu gan yr uwch reolwr a'r Arweinwyr Ardal ac yn cael eu trafod gyda'r swyddog categori.

Er mwyn ymateb i cynnig 3 uchod, rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector ac iechyd gan ddatblygu cynllun gweithredu Strategaeth Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn. Mae'r wybodaeth a ddaeth o'r asesiad anghenion gofalwyr wedi cael ei mewnbynnu i mewn i'r cynllun. Mae'r cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr wedi cael ei groesawu gan ofalwyr ym Meirionnydd a'r bwriad yw hyrwyddo ei ddefnydd mewn ardaloedd eraill. Mae camau pellach yn cael eu cymryd i gefnogi gofalwyr gydag arian parhaol o £114,000 sydd wedi ei gyfeirio i'r Cyngor ac i'r Adran trwy y setliad.

Fel ymateb i gynigion gwella 4 a 5 uchod, cynhaliwyd 82% o gynadleddau cychwynnol amddiffyn plant ar amser yn ystod 2017/18. Mae cofnod manwl ar gael o'r rhesymau pam fod rhai cynadleddau yn hwyr ac mae hyn yn bwydo i'r trefniadau herio perfformiad. Cynhaliwyd 90% o gynadleddau adolygol amddiffyn plant ar amser yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhesymau pam fod rhai yn hwyr eto yn cael ei adrodd i'r trefniadau herio perfformiad. Gwnaed gais am swydd cydlynydd amddiffyn plant ychwanegol drwy drefniadau mewnol y Cyngor i gwrdd â'r cynnydd yn y maes ac er mwyn cynnal perfformiad. Ni fu'r cais yn llwyddiannus. Rydym eisoes wedi ymhelaethu ar gynnydd a fu ar y mater yma yn yr ymateb

Fel ymateb i cynnig 6 uchod, mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn parhau i roi sylw dyledus i'r materion dan sylw. Mae gwelliant wedi bod yn y nifer o asesiadau iechyd sydd yn cael eu cynnal yn amserol ar gyfer plant mewn gofal gyda 65% yn cael eu cynnal ar amser. Mae lle i welliant pellach ac mae'r mater yn derbyn sylw cyson mewn trafodaethau rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn agos ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (17/18), wedi sefydlu grwpiau tasg sydd yn edrych yn benodol ar ymarfer aml-asiantaethol yn y maes iechyd a chefnogaeth ôl ofal a llety a chefnogaeth i'r rhai sydd yn gadel gofal. Mae'r grwpiau hyn yn cael eu harwain gan aelodau'r Panel ac yn adrodd i'r Panel ar gynnydd ac ar unrhyw faterion sydd angen sylw pellach. Yn ystod archwiliad llawn o'r gwasanaeth plant gan AGC ym Mai 2018, nodwyd fod ymagwedd y Panel yn gadarn ac yn ddatblygiadol ac yn sicrhau fod sylw teilwng yn cael ei roi i anghenion plant a phobl ifanc mewn gofal.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 1 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau", cynnig gwella 2 yn cael ei nodi "wrthi'n cael ei gynllunio", a chynigion gwella 3, 4, 5 a 6 "ar waith".

6. **Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2015

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well.

2. Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno.

3. Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Fel ymateb i gynnig gwella 1 uchod, roedd mabwysiadu 'Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd' gan y Cabinet ar 17 Ionawr 2017 yn ffordd o sicrhau bod yr agenda hon yn ennill sylw.Golygodd gyfathrebu ar draws sawl Adran i ddod ag ystod eang o 18 pwynt gweithredu at ei gilydd i 1 ddogfen. Mae'n cael ei fonitro gan y Rheolydd Llesiant.Mae cynnydd da wedi bod ar yr holl bwyntiau gweithredu sydd wedi golygu cyd weithio da rhwng adrannau e.e. Cynllun Pontio'r Cenedlaethau sydd wedi ei gynllunio rhwng yr Adran Oedolion ac Addysg . Mae gweithredu'r Cynllun wedi bod yn fodd i godi ymwybyddiaeth yr holl Adrannau o faterion sy'n bwysig i bobl hŷn ac yn sylfaen dda i sicrhau parhad o gyd weithio intigredig rhwng gwahanol adrannau'r Cyngor.

Fel ymateb i gynnig 2 uchod - yn dilyn ad-drefnu o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sefydlwyd 5 Tîm Ardal newydd fel bod modd i'n dinasyddion hŷn gael gwell mynediad at wybodaeth yn lleol. Mae'r rôl "Cysylltwr Cymunedol" wedi ei ddatblygu yn y timoedd yma i sicrhau bod rhwydweithiau da yn cael eu datblygu o fewn y cymunedau er mwyn darganfod beth yw'r gwasanaethau anffurfiol cymunedol sydd ar gael. Ceir gwasanaeth "Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth" yn y 5 Tîm fel bod modd i'n dinasyddion hŷn gysylltu a chael gafael ar ystod o wybodaeth fedr eu helpu, a hynny drwy un pwynt cyswllt.

Fel ymateb i gynnig 3 uchod, mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn datgan bod "Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl" yn un o 7 pwynt Llesiant y Cyngor cyfan ac yn sicrhau, wrth gyd-fynd gyda nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bod y Cyngor yn integreiddio ystod o wasanaethau

sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, i mewn i brif weithgareddau'r Cyngor. Ceir uned ar "Wytnwch Cymunedol" yng Nghynllun y Cyngor lle dywedir "Ein bwriad dros y blynyddoedd nesaf yw parhau i edrych ar gyfleoedd i adeiladu ar y cryfderau sydd o fewn ein cymunedau a cheisio cyd-gynhyrchu ystod lawn o gefnogaeth ataliol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau". Gwelir eto sut mae'r thema yma yn fodd o gydlynu a sicrhau rheolaeth lefel uchel ar yr ystod o wasanaethau sy'n hybu pobl hŷn i fyw'n annibynnol.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 1 uchod yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau" a chynigion gwella 2 a 3 "ar waith".

7. **Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu (Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd)** – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mehefin 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen cynllunio'n strategol gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu dyheadau a chynlluniau hirdymor. Dylid datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion.

2. Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a gwella ei gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, a'u cynnwys yn y gwaith o lunio datganiad o sefyllfa'r farchnad ac mewn trafodaethau am strategaeth gomisiynu ar y cyd gyda'r sector iechyd.

3. Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion, gan sicrhau bod eglurder o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau sicrwydd ansawdd.

4. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n diogelu hawliau pobl lle mae eu rhyddid yn cael ei amddifadu (DoLS) er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn iawn.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Fel ymateb i gynnig gwella 1 uchod, mae'r Cyngor, yr Awdurdod Iechyd a'r holl randdeiliad eraill yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac wrth iddynt gwblhau eu Hasesiadau Llesiant, rhagwelir gweld yr agenda hon yn uchel ar eu rhaglen waith a byddant yn pennu mesurau priodol i fesur cynnydd ar draws yr holl wasanaethau.

Bydd adroddiad ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn diwedd 2018.

Fel ymateb i gynnig gwella 2 uchod, y Grŵp Trawsffurfio sy'n gyrru'r rhaglen waith o ran y strategaeth gomisiynu i'r dyfodol. Rhoddir bwyslais ar gyd-gynhyrchu cynlluniau gwaith ar faterion fel gofal ysbaid a darparu'r gwasanaethau o fewn ffiniau'r Sir. Mae pob prosiect trawsffurfio bellach yn cynnwys darparwyr allweddol - y Bwrdd Iechyd a'r teuluoedd/oedolion rydym yn eu cefnogi yn ôl yr angen. Rydym yn cynnal sesiynau ymgysylltu yn rheolaidd. Bydd adroddiad ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn diwedd 2018.

Fel ymateb i gynnig gwella 3 uchod, mae'r Adran wedi sefydlu Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd gyda eglurdeb o ran swyddogaethau o fewn yr uned a bod trefniadau tynn yn eu lle. Bydd adroddiad ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn diwedd 2018.

Fel ymateb i gynnig gwella 4 uchod, mae'r ffrwd gwaith o ddiogelu unigolion rhag colli eu rhyddid (DoLS) yn cael ei reoli yn yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. Mae cydlynydd DoLS bellach wedi ei benodi ar sail barhaol ac mae trefniadau yn eu lle i aseswyr budd gorau o weddill yr Adran i gynorthwyo gyda ymdopi â'r llwyth gwaith heriol. Bydd adroddiad ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn diwedd 2018.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 3 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau" a chynigion gwella 1, 2 a 4 yn cael eu nodi "ar waith".

8. **Rheoli asedau [Tir ac Adeiladau]** – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai'r Cyngor arwain y blaen drwy ailagor trafodaethau â phartneriaid lleol a rhanbarthol ynghylch datblygu dull systematig o gynllunio asedau ar y cyd, gan gynnwys cyfleoedd i: gytuno ar systemau rheoli perfformiad ar y cyd, a'u defnyddio; sefydlu cyrff darparu gwasanaethau eiddo ar y cyd; sefydlu cyrff dal eiddo ar y cyd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn dilyn derbyn yr argymhelliad yma bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd a Môn) sefydlu ffrwd gwaith Asedau Eiddo a gofyn i'r Gwasanaeth Tân arwain ar y gwaith. Mae'r gwaith hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn ac ni arweiniodd at newidiadau sylweddol i'n trefniadau gweithio. Er hyn, mae perthynas wedi ei

sefydlu gydag arweinwyr rheoli asedau o fewn y cyrff eraill ac mae ymarfer da yn cael ei rannu yn ogystal â gwell rhannu gwybodaeth. Mae pawb hefyd yn cyfrannu at system ganolog y llywodraeth i rannu gwybodaeth am asedau gweddill i anghenion ayb. Fel Cyngor rydym wedi symud yr agenda rheoli asedau ymlaen yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a byddwn yn mabwysiadu ein hail Gynllun Rheoli Asedau ar gyfer y cyfnod 2019-2029 cyn y Nadolig eleni.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella uchod yn cael ei nodi fel un "ar waith".

9. **Adolygiad Technoleg Gwybodaeth** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Hydref 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1 Adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Llywodraethu TG i sicrhau ei fod yn effeithiol o ran cytuno ar flaenoriaethau a gwneud argymhellion i'r uwch- reolwyr a'r Aelodau. Yn ogystal, mae angen i'r grŵp sicrhau cysondeb o ran: y model blaenoriaethu prosiectau TG; paratoi achosion busnes ar gyfer pob prosiect TG; adolygu pob prosiect TG ar ôl ei roi ar waith; defnyddio'r dull rheoli prosiectau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer pob prosiect TG mawr.

2. Sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r Strategaeth TG newydd yn cynyddu ar draws y Cyngor.

3. Gwella perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y Strategaeth TG ar draws y Gwasanaeth TGCh drwy sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng cynlluniau gwasanaeth ac arfarniadau unigol a'r strategaeth.

4. Darparu diweddariadau rheolaidd am hynt y Strategaeth TG i'r uwch-reolwyr a'r Aelodau.

5. Llunio Cynllun Gwasanaeth TGCh cynhwysfawr sy'n cydweddu â'r Strategaeth TG newydd.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae aelodaeth y Grŵp Llywodraethu TG wedi adolygu yn ystod y flwyddyn a fu. Mae rhaglen waith wedi ei chytuno ac mae'r ymateb i'r cynigion ar waith. Mae cofnodion y cyfarfod ble adolygwyd y cylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp wedi eu rhannu gydag aelodaeth y grŵp a'r Penaethiaid Adran. Mae'r rheolwyr cyfrif yn cydweithio â swyddogion y Cyngor i baratoi achosion busnes ar gyfer prosiectau TG ac yn ran ymarferol o lywodraethant prosiectau mawr.

Fel ymateb i gynnig gwella 2 uchod, mae Rheolwyr Cyfri yn codi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth yng nghyfarfodydd rheoli adrannol, ac yn bwydo ymateb yn ôl i'r tîm TG.

Fel ymateb i gynnig gwella 3 uchod, mae'r uned rheolaeth rhaglen bellach wedi ei sefydlu a'r gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu'n rheolaidd â'n rhanddeiliaid drwy ymweld ag unigolion a thimau rheoli adrannau a gwasanaethau. Mae cyswllt hefyd rhwng y grŵp yma a'r tîm Ffordd Gwynedd a'r rôl bellach yn weladwy oddi fewn y Cyngor.

Fel ymateb i gynnig gwella 4 uchod, mae cynnydd yn erbyn y Strategaeth TG yn cael ei adrodd ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad sydd yn ei dro yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adnoddau. Mae yr un diweddariad yn cael ei adrodd arno yn y Grŵp Llywodraethu TG a'r Grŵp Uwch Reolwyr.

Fel ymateb i gynnig gwella 5 uchod, mae'r rhaglen waith datblygu yn cael ei rannu fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ac yn gofnod gweladwy bod y dasg yn cael ei chwblhau. Mae cynlluniau gwaith ar gael i'r uned rheolaeth rhaglen ac isadeiledd, ond nid yw'r rhain yn cael eu adrodd ymhellach na'r tîm rheoli TG.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod pob cynnig gwella uchod yn cael ei nodi “wedi'i gwblhau”.

10. **Diogelwch Cymunedol yng Nghymru** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2016

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.

2 Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.

3 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy: osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol; sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad

yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.

4 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth: ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol; cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Does dim datblygiad pellach ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fis Tachwedd ar yr argymhelliad cyntaf oherwydd ein bod yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref parthed strategaeth genedlaethol. Yn y cyfamser, mae cynllun rhanbarthol a lleol mewn lle.

Unwaith eto, does dim datblygiadau ar yr ail argymhelliad ychwaith. Mae'r Bwrdd Rhanbarthol mewn lle, ac mae'r Partneriaethau statudol lleol mewn lle, ond allwn ni ddim symud yn ein blaenau hyd nes y cawn arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, a than y daw canlyniadau'r adolygiad sydd wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol (3 uchod), mae Cynllun Rhanbarthol yn ei le gyda mesurau perthnasol, ond mae'r gwaith hwn eto'n ddibynnol ar ganlyniadau adolygiad Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol , fe ddadansoddwyd y canlyniadau a'u defnyddio i greu cynllun gweithredu ar gyfer 2018/19.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 4 yn cael ei nodi "wedi'i gwblhau", a chynigion 1, 2, 3 fel "ar waith".

11. **Strategaeth Pobl** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2016

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1 Sicrhau perchnogaeth lawn gan yr Aelodau drwy iddynt graffu ar y Strategaeth Pobl a'i chymeradwyo'n ffurfiol.

2. Diweddaru'r holl bolisïau rheoli pobl a'r canllaw i reolwyr i adlewyrchu'r Strategaeth Pobl newydd.

3. Rhoi cynllun gweithlu corfforaethol cynhwysfawr ar waith.

4. Cyflwyno’r broses gwerthuso newydd i’r holl staff.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mabwysiadwyd y "Cynllun Pobl" yn ffurfiol gan y Cabinet ar 1 Tachwedd, 2016. Adroddir ar gynnydd y ffrydiau gwaith sydd wedi'u blaenoriaethu o fewn y Cynllun i gyfarfodydd herio perfformiad yr Aelod Cabinet (ple bo dau aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn bresennol). Bydd y Cynllun Pobl yn cael ei adolygu yn ystod 2018 gan bod cyfnod presennol y Cynllun yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae’r Grwp Prosiect, dan arweiniad Rheolwr y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol, yn adolygu cynnwys pob elfen o'r amodau gwaith lleol yn bresennol. Mae un o'r Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Rheolwr Prosiect gyda'r Uwch Reolwr a'r Pennaeth Adran yn gweithredu fel Uwch-Ddefnyddwyr. Mae nifer o bolisïau wedi'u hadolygu i gyd-fynd a'r diwylliant o rymuso, arfogi a chyflawni a bydd y gwaith i barhau dros y 12 mis nesaf.

Mae’r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol yn arwain ar gyflwyno trefniadau cynllunio'r gweithlu cynhwysfawr i'r Cyngor. Ochr yn ochr â hyn mae’r Tîm Ymchwil a Dadansoddeg yn cydweithio'n agos er mwyn darparu gwybodaeth allweddol am natur y gweithlu presennol. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn gyda’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i brofi'r trefniadau cyn eu hymestyn yn ehangach.

Cyflwynwyd drefniadau gwerthuso amgen i staff (ar sail gwerthuso parhaus yn hytrach na digwyddiad blynyddol) ar draws y Cyngor. Roedd adolygiad anffurfiol o’r trefniadau yn arddangos yr angen i wreiddio'r arfer o werthuso parhaus ar draws y Cyngor. Bydd y gwaith hwn yn un o flaenoriaethau pennaf 2018/19.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynnig gwella 1 uchod “wedi’i gwblhau” a chynigion gwella 2, 3 a 4 yn cael eu nodi fel rhai “ar waith”.

12. **Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm** - Adroddiad Cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Tachwedd 2016

Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad –

3. Defnyddio’r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.

4. Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.

5. Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy: adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu; gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion; meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel bo modd gwneud penderfyniadau cadarn.

6. Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae ein gweithrediad ar argymhellion 3 a 4 yn barhaus. Byddwn yn defnyddio Asesiadau Effaith pan fydd newid o sylwedd mewn taliadau (3), tra ar yr un pryd yn ystyried yr holl opsiynau wrth ystyried ai cwmnïau o'r sector preifat fyddai fwyaf effeithiol wrth gasglu incwm (4).

Mae trefniadau rheoli perfformiad (5) eisoes wedi newid o fewn y Cyngor, ac mae 2 aelod o bwyllgorau craffu yn eistedd i mewn ar gyfarfod herio perfformiad yr Aelodau Cabinet. Yng nghyfansoddiad y Cyngor, mae'r cyfrifoldeb a'r grym am osod ac adolygu ffioedd a phrisiau wedi'i ddirprwyo i'r adrannau perthnasol, i'w weithredu'n flynyddol gan yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran. Yn y pen draw y pwyllgorau craffu sy'n rheoli'r rhaglen graffu, ac mae rôl i'r pwyllgor hwn wneud hynny o fewn y maes cyllid.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod cynigion gwella 3,4 a 5 yn cael eu nodi "wedi'i gwblhau".

13. **Rheoli Risg - Asesiad sy'n seiliedig ar risg o drefniadau corfforaethol y Cyngor** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Ionawr 2017

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1 Byddai trefniadau rheoli risg y Cyngor yn elwa o: ddatblygu dogfen tracio neu grynhoi risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol; cyflwyno mwy o gysondeb o ran pennu a rheoli risgiau mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i'r Aelodau; rhoi sylw amlycach i'r cysyniad o 'barodrwydd i wynebu risg' yn ei waith rheoli risg; cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau diwygiedig y Cyngor; hyfforddi'r swyddogion a'r Aelodau ynghylch rheoli risg fel rhan o fenter ehangach i godi ymwybyddiaeth.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror 2017:

- Bydd y Grŵp Llywodraethu yn adolygu ein trefniadau;
- Esblygu diwylliant rheoli risg fel nad ydyw'n "ymarferiad ticio bocs";
- Adolygu'r hyfforddiant i swyddogion.

Cyflwynir adroddiad penodol ar hyn i gyfarfod dilynol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella yn cael ei nodi fel un "ar waith".

14. **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau** – Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Rhoi cyfle i'r pwyllgorau craffu adolygu a herio achosion busnes newidiadau i wasanaethau mewn ffordd amserol cyn bod y Cabinet yn penderfynu'n derfynol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ers i'r model craffu newydd gael ei fabwysiadu mis Mai 2017, mae'r pwyslais ar hyrwyddo blaen-graffu'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau a pholisïau a.y.b. Bydd adolygiad o lwyddiant y trefniadau newydd i'w gynnal yn ddiweddarach yn ystod 2018/19.

Casgliad

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y cynnig gwella yn cael ei nodi fel un "ar waith".

15. **Cynllunio Arbedion** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Mawrth 2017

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod yr amserlenni cyflawni a geir mewn achosion busnes yn gadarn

2. Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy sefydlu dull mwy corfforaethol o bennu cyfleoedd incwm

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bwriedir gwneud pob ymdrech i sicrhau bod amserlenni cyflawni mewn achosion busnes yn gadarn. Bydd hyn yn fwy ymarferol gyda thoriadau, ond bydd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn mynd yn gynyddol heriol a'r amserlen yn amodol ar sawl ffactor cymhleth (e.e. prosiect Hamdden). Rhoddir ystyriaeth briodol i hyn yn y drefn arbedion newydd sydd ar gychwyn.

Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi ymgynghori yn anffurfiol gyda'r Cabinet a byddwn yn trin / ystyried y ffrydiau incwm allweddol yn gorfforaethol wrth adnabod arbedion newydd erbyn 2018/19 a 2019/20. Rhoddir ystyriaeth briodol i hyn yn y drefn arbedion newydd sydd ar gychwyn.

<u>Casgliad</u>

Ar sail yr hyn a nodir uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gytuno fod y ddau gynnig gwella yn cael eu nodi fel rhai "ar waith".